COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 18 GORFFENNAF 2018, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd JR McCarthy – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| NA Burnett | MC Clarke | N Clarke | RJ Collins |
| HJ David | P Davies | PA Davies | SK Dendy |
| DK Edwards | T Giffard | RM Granville | CA Green |
| DG Howells | A Hussain | RM James | B Jones |
| M Jones | DRW Lewis | JE Lewis | DG Owen |
| D Patel | RL Penhale-Thomas | AA Pucella | JC Radcliffe |
| KL Rowlands | RMI Shaw | SG Smith | JC Spanswick |
| RME Stirman | G Thomas | JH Tildesley MBE | E Venables |
| SR Vidal | MC Voisey | LM Walters | KJ Watts |
| CA Webster | DBF White | PJ White | A Williams |
| AJ Williams | HM Williams | JE Williams | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

J Gebbie, MJ Kearn, B Sedgebeer, CE Smith, T Thomas a/ac RE Young

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Laura Kinsey | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant |
| Greg Lane | Head of Democratic Services |
| Darren Mepham | Prif Weithredwr |
| Michael Pitman | Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Kelly Watson | Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |

202. DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

203. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y Cyngor ar 20 Mehefin 2018 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

204. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Rhoddodd y Maer wybod i'r Cyngor o ddigwyddiadau swyddogol yr oedd ef a'i gonsort wedi mynd iddynt yn y mis diwethaf oedd yn cynnwys mynd i wasanaeth bendithio Ysgol Gynradd Betws a phen-blwydd Mrs Elsie Criddle yn 100 oed. Roedd y Maer a'r Consort wedi mynd i dair sioe ysgol a'r Ŵyl Ddysgu, y symposiwm a diwrnod i ddysgwyr Pen-y-

bont ar Ogwr. Roeddent hefyd wedi mynd i'r gwobrau YSBRYDOLI am Oes a chyflwyniad RAF gyda Madelaine Moon AS. Aethpwyd i ddigwyddiadau pellach gyda gwasanaeth ieuenctid cymunedol y Pîl a Chynffig, Barnu cystadleuaeth "just giving" yn ysgol gyfun Pencoed, Diwnod Hwyl yr Haf Dogs Trust, gwobrau cyfnod allweddol 3 yn CCYD, cofnod o Seremoni Cyflawniadau yn Ysgol Bryn Castell, Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Samaritans, Diwrnod Hwyl Bracla, Cyngerdd Flynyddol Côr Plant Maesteg, diwrnod hwyl i'r teulu Little fingers Kidz yn Evanstown, Digwyddiad 4 Gorffennaf Hapus yng Nghanolfan Gristnogol Vine, gwobrau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, gwasanaeth Dinesig Caerffili, Arddangosfa Samtampa a Thywysog Edward Cymru, project teulu Splice and Child, Sioe Sir Pen-y-bont ar Ogwr, cyngerdd Flynyddol Côr Pencoed, Gwasanaeth Dinesig Castell-nedd Port Talbot, Seremoni Gwobrau Dinasyddiaeth Cynradd Tondu, noson ddathlu yn Ysgol Bryn Castell.

<u>Dirprwy Arweinydd</u>

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd wrth Aelodau am yr ymdrechion i roi hwb i ailgylchu ym Melin Wyllt i fynd i'r afael â phroblemau gyda gwastraff a thipio anghyfreithlon o gwmpas ardaloedd biniau cyffredin, gyda mwy o finiau ychwanegol yn Nhairfelin i greu mannau casglu dynodedig newydd ar gyfer gwastraff a bagiau porffor. Mae gwelliannau tebyg eisoes wedi cael effaith gadarnhaol yn rhan Glanffornwg yr ystâd, lle y cafodd mannau ailgylchu eu symud i'w gwneud yn fwy hygyrch a haws i'w defnyddio. Dywedodd hefyd wrth yr Aelodau fod swyddogion addysg wedi bod yn siarad â thrigolion i godi ymwybyddiaeth ym mhob rhan o'r gymuned. Caiff dwy orsaf ailgylchu ychwanegol eu hychwanegu yng Nglanffornwg. Erbyn diwedd yr haf, bydd gwelliannau wedi'u gwneud ym mhob rhan o Felin Wyllt a chaiff yr effaith y mae'r mannau casglu newydd wedi'i chael ar drigolion ym Maesyfelin a Threm Garth ei hadolygu.

Cyhoeddodd y Dirprwy Arweinydd fod Cadwch Gymru'n Daclus wedi gwobrwyo statws Baner Werdd i wyth cyfleuster ym y Fwrdeistref Sirol i nodi safon uchel parciau a mannau gwyrdd ym Mharc Sirol Bryngarw, Amlosgfa Llangrallo, Parc Llesiant Maesteg, Llŷn Wilderness ym Mhorthcawl, Ysbyty Glanrhyd, Gardd Marchnad Caerau, Rhandiroedd Badgers Brook a Chymdeithas Rhandir Wilderness.

Hefyd cyhoeddodd y Dirprwy Arweinydd fod adborth cadarnhaol wedi'i dderbyn o'r Ŵyl Ddysgu ddiweddar. Roedd yr ŵyl wedi'i chreu i arddangos dulliau addysgu a dysgu arloesol a newydd, ac anogodd ysgolion i rannu eu profiadau a'u gwybodaeth tra'n sefydlu cyfleoedd hyfforddiant newydd i athrawon a staff. Ymgasglodd mwy na 800 o athrawon, disgyblion, addysgwyr, hyfforddwyr a chyflogwyr ar gyfer yr ŵyl, a chynhaliwyd hyd at 100 o weithdai mewn ysgol a arddangosodd sut y gellir defnyddio y datblygiadau ystafell ddosbarth modern diweddaraf i fuddio plant lleol. Yn yr Ŵyl, rhoddodd y Comisiynydd Plant, Dr Sally Holland, araith ac
hefyd yn yr ŵyl roedd symposiwm a ganolbwyntiodd ar sut gellir datblygu, cynnal a gwella iechyd a llesiant disgyblion, a diwrnod i ddysgwyr lle cynigiodd disgyblion o ysgolion lleol stondinau, arddangosfeydd ac arddangosiadau ymarferol o rai o'r technegau sy'n cael eu defnyddio. Yng nghwmni'r Cyngor, Llywodraeth Cymru, Estyn, Swyddfa'r Comisiynydd Plant ac ysgolion lleol ar gyfer yr ŵyl oedd sefydliadau gan gynnwys Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru, Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llesiant yn Addysg Uwchradd a Chelf Disgleirdeb. Diolchodd i bawb a helpodd i drefnu'r ŵyl.

<u>Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar</u>

Gofynnodd yr Aelodau Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar i'r Aelodau roi gwybod i'w hetholwyr bod bellach modd gwneud cais am leoedd yn nau ddatblygiad Gofal Ychwanegol newydd y Fwrdeistref Sirol. Dywedodd fod disgwyl y

bydd Tŷ Llwynderw, sy'n datblygu ar hen safle Ysgol Gyfun Iau Maesteg a Thŷ Ynysawdre, sy'n cael ei ddatblygu'r drws nesaf i Goleg Coleg Cymunedol y Dderwen, wedi ei gwblhau yn yr Hydref hwn. Mae'r ddau gynllun yn cael ei adeiladu mewn partneriaeth â Linc Cymru a byddant yn galluogi tenantiaid i barhau i fyw'n annibynnol a bodloni anghenion pobl sy'n newid wrth iddynt heneiddio. Mae 45 fflat Gofal Ychwanegol un neu ddwy ystafell wely ar gael yn y ddau ddatblygiad a rhaid i ymgeiswyr fod yn byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, bod yn hŷn na 65 oed, a rhaid bod ganddynt gynllun gofal a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol eisoes neu'n aros am asesiad.

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod Linc Cymru wedi trefnu digwyddiad ymgynghori cymunedol yr wythnos ddiwethaf lle y trafodon nhw eu cynigion ar gyfer sefydlu Pentref Llesiant Sunnyside ar safle blaenorol swyddfeydd y Cyngor a'r llys ynadon. Dan arweiniad Linc Cymru, mewn partneriaeth â ni a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe a Bro Morgannwg, daw'r project â meddygfa, fferyllfa, deintydd, clinigau cymunedol a thai cymorth newydd.

Cyhoeddodd yr Aelod cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod Clwb Canŵio Maesteg wedi'i gydnabod am ei ganolbwynt ar anabledd a chynhwysiant. Mae'r clwb wedi ennill categori Aur yn y gwobrau chwaraeon am ei ymdrechion sy'n cydnabod cymhelliant, ymrwymiad a brwdfrydedd y clwb i newid bywydau pobl anabl trwy grym chwaraeon.

<u>Yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol</u>

Roedd yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol yn falch o roi gwybod i'r Aelodau y cafodd enillwyr gwobrau 'Ysbrydoli am Oes' cyntaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr eu datgelu'r wythnos ddiwethaf. Mae gwobrau, wedi'u creu i ddathlu Pencampwyr, grwpiau a sefydliadau lleol sydd wedi helpu i wella iechyd a llesiant pobl yn eu cymunedau, yn canolbwyntio ar bum categori gwahanol. Llongyfarchodd Canolfan Cwricwlwm Amgen Maesteg yn Ysgol Gyfun Maesteg am ennill y categori Arloesi a Community Furniture Aid am ennill y categori 'Gwneud Gwahaniaeth'. Roedd Simon Green o Glymblaid Pen-y-bont ar Ogwr i Bobl Anabl yn llwyddiannus yn y categori 'Grym Un Person', enillodd Geoff Cheetham o SHOUT y wobr 'Tu hwynt i'r Galw', a chyflwynodd y wobr 'Gwirfoddolwr Ifanc' i Nora Hardy o Ysgol Gyfun Bryntirion. Roedd yr Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn falch fod y galw ar bobl i enwebu arwyr di-glod ac arwyr sy'n gweithio er lles eraill, wedi tynnu ymateb enfawr a diolchodd i'r holl enwebwyr a llongyfarchodd yr enillwyr.

Llongyfarchodd yr Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol Ysgol Gyfun Pencoed am ennill y Wobr Hunaniaeth y Tîm Gorau a chipiodd y trydydd lle yn y Dosbarth Datblygu yng nghystadleuaeth 'F1 mewn Ysgolion' sy'n anelu at annog peirianwyr ifanc. Dywedodd i'r tîm i'r merched yn unig ddylunio, datblygu a chreu 'car mini' ac arddangosfa pwll trwy ddefnyddi'r enw tîm 'Nemesis Inferno'. O ganlyniad i'w hymdrechion, mae'r merched wedi ennill nawdd gan y Grŵp Sinclair a fydd yn eu cefnogi gyda'u dyheadau i'r dyfodol. Cystadlu timau lleol eraill gydag Ysgol Gyfun Brynteg gan hefyd gyrraedd y rownd derfynol. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol fod annog mwy o ferched i ddilyn gyrfaoedd STEM yn flaenoriaeth genedlaethol, a chanmolodd ysgolion am ysbrydoli eu disgyblion i ddatblygu sgiliau y mae eu hangen yn y diwylliant peirianyddiaeth.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol i'r Aelodau atgoffa etholwyr bod rhaglen Ysgol wedi Gorffen yn cynnig ystod eang o weithgareddau am ddim wedi'u creu i gadw plant yn heini, yn iach ac yn brysur yn ystod gwyliau'r haf. Lansiwyd y rhaglen yr wythnos ddiwethaf a threfnwyd y rhaglen gan y Cyngor mewn partneriaeth ag Awen, Halo, Menter Bro Ogwr a chynghorau cymuned a thref lleol. Mae Rhaglen Ysgol

wedi Gorffen eleni hefyd yn cynnwys y fenter Park Lives, sesiynau Actif am Oes, nofio am ddim a llawer mwy. Bydd y rhaglen lawn o weithgareddau ar gael ar wefan y Cyngor o ddydd Gwener 20 Gorffennaf, ac mae mwy o wybodaeth am Her Ddarllen yr Haf ar gael o Lyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr.

Swyddog Monitro

Gofynnodd y Swyddog Monitro i'r Aelodau nodi bod dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio wedi newid o 13 Medi i 6 Medi 2018. Mae'r newid yn cael ei wneud ar gais y Cadeirydd ac ymgynghorwyd ag aelodau'r Pwyllgor Archwilio ar y newid i'r dyddiad.

Prif Weithredwr

Croesawodd y Prif Weithredwr Mr Greg Lane, pennaeth newydd y Gwasanaethau Democrataidd i'w gyfarfod y Cyngor cyntaf.

Cyhoeddodd y Prif Weithredwr fod yr Arweinydd wedi diweddaru'r Cyngor yn flaenorol ar yr ymgynghoriadau a'r trafodaethau wedi'u harwain gan Lywodraeth Cymru ar y newidiadau i ffiniau bwrdd iechyd. Dywedodd y bydd yr Aelodau'n ymwybodol i'r Ysgrifenyddiaethau Cabinet gytuno y bydd y gwaith o weinyddu gwasanaethau iechyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn symud o ABMU i Gwm Taf o 1 Ebrill y flwyddyn nesaf ymlaen.

Dywedodd wrth yr Aelodau fod bwrdd rhaglen ar y cyd wedi'i sefydlu, wedi'i gyd-gadeirio gan gadeiryddion y ddau fwrdd iechyd. Mae'n cynnwys ddau Brif Weithredwr y byrddau iechyd yn ogystal ag Arweinydd y Cyngor hwn a'i hunain. Dywedodd fod hefyd gan y Cyngor hwn ddarpariaeth i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Aeloda Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fynychu i sicrhau bod y Cyngor yn cael ei gynrychioli. Roedd cyfarfodydd cychwynnol wedi bod yn gadarnhaol ac yn gynhyrchiol ac amlinellodd yr egwyddorion y cytunwyd arnynt i lywio'r project hwn.

Bydd parhau rhoi gofal o ansawdd i gleifion yn ganolog i bob cam gweithredu a phenderfyniadau.

Bydd y ddau Fwrdd Iechyd yn cydweithio ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau nad yw'r boblogaeth neu'r sefydliad yn cael eu rhoi dan anfantais gan ganlyniadau gweithredol neu ariannol y newidiadau. O ran poblogaeth, byddai'n golygu poblogaeth newydd Cwm Taf ledled Merthyr, RCT a Phen-y-bont ar Ogwr a phoblogaeth newydd ABMU ledled Abertawe a Chastell-nedd a Port Talbot.

Cedwir y cyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau Iechyd ar gyfer poblogaethau Castell-nedd Port-Talbot ac Abertawe, yn llawn, gan ABMU. Cadarnheir parhad unrhyw wasanaethau i Ysbyty Castell-nedd Port Talbot o Ben-y-bont ar Ogwr gyda chytundebau lefel gwasanaeth yn cael eu rhoi ar waith fel sy'n briodol.

Bydd y cyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau Iechyd ar gyfer poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn trosglwyddo'n llwyr i BIP Cwm Taf o 1 Ebrill 2019.

Bydd cyfrifoldeb darparwyr am yr holl wasanaethau GIG i boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn trosglwyddo i BIP Cwm Taf o 1 Ebrill 2019 oni bai bod rheswm cyfreithiol wedi'i gyd-gytuno dros gadw gwasanaeth penodol gydag ABMU naill ai yn y byrdymor (i leihau dad-sefydlogi yn ystod y cyfnod pontio) neu ar sail mwy cadarn, lle er enghraifft:

Bod gwasanaeth penodol yn rhan o wasanaeth arbenigol y mae ABMU eisoes yn ei ddarparu i'r boblogaeth ehangach.

Mae gwasanaeth swm isel sengl neu wedi'i arbenigo'n fawr yn cael ei ddarparu ar gyfer poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd o Abertawe neu Gastell-nedd Port Talbot (neu i'r gwrthwyneb) ac mae'r crynswth hanfodol mor fach bod pryderon go iawn yn cael eu codi am gynaliadwyedd a'u chwalu.

Mewn achosion o'r fath, byddai angen cyflawni cyfrifoldebau comisiynu BIP Cwm Taf ar gyfer y boblogaeth trwy CLG priodol.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod rhan y Cyngor hwn yn y Bwrdd yn bwysig ac yn rhoi'r cyfle i'r Arweinydd a'r Cyfarwyddwr a'r Aelod Cabinet i ddylanwadu a siarad ar ran Pen-y-bont ar Ogwr o ran buddiannau ei boblogaeth ac o ran integreiddio gwasanaethau gydag iechyd nawr ac wrth fynd ymlaen. Mae llawer o waith y Bwrdd yn ymwneud â gwaith mewnol y ddau sefydliad iechyd. Fodd bynnag, mae Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn arwain y gwaith sy'n perthyn i bartneriaethau yn ardaloedd y ddau fwrdd iechyd. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Cyngor fod Cwm Taf, fel bwrdd iechyd, yn uchelgeisiol a bod CBSP, fel Cyngor, yn uchelgeisiol ac edrychodd ymlaen at y ddau barti'n cydweithio'n agos.

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Cyngor y byddai'n hysbysebu am rôl Cyfarwyddwr Addysg a Chymorth i Deuluoedd. Dywedodd i'r Cyfarwyddwr cyfredol Lindsay Harvey gael ei benodi gan y Cyngor dros dro pan gafodd ei ragflaenydd ei eilio i Lywodraeth Cymru ac a adawodd ar ôl hynny i gymryd swydd fel Comisiynydd Plant yn Jersey gan beidio â dychwelyd i'w swydd. Dywedodd fod angen penodi i'r rôl ac y bydd y rôl honno'n cael ei hysbysebu'r mis hwn. Bydd yr hysbyseb hefyd yn cyfeirio at ystyried gwasanaeth addysg ar y cyd gyda Chyngor Merthyr, ond byddai'n benodiad CBSP. Caiff y Pwyllgor Penodi ei gynnull i oruchwylio'r broses honno a gwneud y penderfyniad terfynol ar benodi yn dilyn proses canolfan asesu.

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Cyngor hefyd ei fod ef a'r Pennaeth Cyllid Dros Dro yn adolygu y rôl pennaeth gwasanaeth ac roedd yn cymryd mwy o gyngor ar y farchnad cyn i hysbyseb gael ei chyhoeddi ar gyfer y rôl honno a byddai'n parhau i roi'r diweddaraf i'r holl Aelodau ar sut mae'r gwaith hwnnw'n mynd yn ei flaen.

205. DERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Dywedodd y Arweinydd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Alun Davies AS wneud datganiad yn y Senedd prynhawn ddoe'n cadarnhau dileu map cyfuno a'i fwriad, yn dilyn adborth ar ymgynghoriad, i sefydlu gweithgor wedi'i gadeirio gan Derek Vaughan MEP i ystyried sut i fynd â'r agenda diwygio yn ei flaen. Bydd y rhan fwyaf o aelodau ar y gweithgor o lywodraeth leol a bydd y gweithgor hwnnw'n ceisio cytuno'r hyn sy'n bosibl o ran diwygio, trwy fwy o gydweithredu neu gyfuniadau gwirfoddol, a sicrhau bod adnoddau a phwerau digonol yn cael eu rhoi i lywodraeth leol i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus. Roedd yr agwedd hon wedi'i chroesawu a'i chefnogi gan Arweinydd CLILC, y Cyng. Debbie Wilcox, gan ei bod yn cynnig dychweliad at agwedd fwy cydweithredol at ddiwygio, wedi cytuno'n eang gyda Mark Drakeford AS pan oedd yn Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Llywodraeth Leol. Gobeithiodd yr Arweinydd y gellir gwneud rhywfaint o gynnydd erbyn y Gwanwyn. Dywedodd ei bod yn hanfodol bod cynaliadwyedd ariannol yn cael ei ystyried ynghyd â diwygio, gan fod yr argyfwng cyfredol mewn Cynghorau Sir mawr yn Lloegr yn dangos nad yw llymder yn parchu graddfa yn enwedig o ganlyniad i gost gofal cymdeithasol sy'n cynyddu.

Cyhoeddodd yr Arweinydd i ddatganiad Ysgrifennydd y Cabinet hefyd gadarnhau y bydd Llywodraeth Leol yn cyflwyno bil llywodraeth leol fel y cynlluniwyd, i gyflwyno pwerau

cyfuno gwirfoddol, pwerau newydd ehangach ar gyfer cynghorau yn ogystal â phleidleisiau ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed a diwygio etholiadol eraill.
Bydd yr holl Arweinwyr Cyngor yn trafod y datblygiadau hyn a'r telerau cyfeirio drafft yng nghyfarfod dydd Iau Bwrdd Gweithredol CLILC. Byddai'n parhau i roi'r diweddaraf i'r Aelodau ar gynnydd sy'n cael ei wneud.

Cyhoeddodd yr Arweinydd, yn rhan o'r cynllun mwynddŵr Caerau arloesol, fod plant o ysgolion yng Nghwm Llynfi wedi bod yn dysgu am sut y caiff gwres wedi'i greu ei ddefnyddio i wresogi 150 cartref. Roedd tua 200 o ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn gweithdai diweddar wedi'u dylunio i esbonio gwyddoniaeth, technoleg, peirianyddiaeth a mathemateg oedd yn sail i'r cynllun a dysgon nhw hefyd am hanes diwydiannol cyfoethog y cwm, a sut y gellir bellach defnyddio gwaith pyllau glo yng Nghaerau, Bryn Navigation, Garth, Coegnant, Oakwood, Maesteg a St John's i ddarparu ffurf diogel, parhaol, effeithlon a chost-effeithiol ar wresogi ar gyfer y gymuned leol.

Cyhoeddodd yr Arweinydd, ynghyd â'r Aelod Cabinet dros Gymunedau, iddo gyfarfod â'r Ysgrifennydd Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, am sut y gall Llywodraeth Cymru helpu i fynd â'r cynllun mwynddŵr yn ei flaen i'r cam nesaf, a'r potensial yn rhan o Rhwydwaith Gwres Rhanbarth Pen-y-bont ar Ogwr i ddatblygu'r ddiweddaraf yn seilwaith TG i gefnogi busnesau yn nhref Pen-y-bont ar Ogwr ar yr un pryd. Dywedodd fod y Cyngor hefyd yn rhan o gonsortiwm gyda Cenin i ddatblygu ei barc ynni yn Stormy Down ymhellach. Arweiniodd hyn at ymweliad gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gweinidog Gwladol Llywodraeth Cymru ar gyfer Ynni a Thwf Glân, Claire Perry AS oedd hefyd yn bositif iawn am fentrau ynni arloesol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd wrth y Cyngor hefyd i'r Cabinet yn ei gyfarfod y diwrnod blaenorol gefnogi cais y consortiwm i Gronfa Her Diwydiannol Llywodraeth y DU. Fel yr unig glwstwr arddangos ynni system SMART yng Nghymru a'r un mwyaf flaenllaw yn y DU, mae diddordeb yn cael ei ddangos yn fyd-eang yn y gwaith sy'n cael ei arloesi, ei dreialu a'i ddatblygu yn y cymunedau lleol.

Gwnaeth ef a'r Aelod Cabinet dros Gymunedau gyfarfod 'ar Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth i drafod mwyhau buddion Metro De Cymru a braint Cymru a'r Ffiniau newydd ar gyfer cymunedau Pen-y-bont ar Ogwr. Pwysleisiwyd eto pwysigrwydd cynyddu amlder gwasanaeth rheilffordd Maesteg nid yn unig i'r Cwm Llynfi ond hefyd i gymunedau porth y Cymoedd, Pen-y-bont ar Ogwr, Pencoed a Llanharan a Phontyclun hefyd. Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet wedid esbonio bod hyn yn cael ei ystyried gan Drafnidiaeth Cymru a Keolis Amey ac roedd yn gobeithio gwneud cyhoeddiad yn fuan. Pwysleisiwyd hefyd i'r Ysgrifennydd Cabinet y pwysigrwydd hirdymor hanfodol o waredu croesfan Pencoed, nid yn unig i wella diogelwch, osgoi tagfeydd yng nghanol y dref a problem ansawdd aer posibl i drigolion ond hefyd i wella cyflymderau yr holl drenau sy'n teithio i'r gorllewin o Gaerdydd ar brif lein Great Western. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith ar sut y gellir cynyddu cyflymder trenau ar y brif lein gan fod llawer o'r gwelliannau peirianyddiaeth, megis ailalinio traciau y disgwyliwyd iddynt gael eu gwneud ar yr un adeg â'r trydaneiddio wedi'u canslo. Hefyd ailadroddodd yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Gymunedau yr achos am faes Parcio a Theithio Bracla, mwy o le ar gyfer maes parcio a theithio yng ngorsaf y Pîl a chysylltiadau bws cyflym â chymunedau nad oes ganddynt wasanaethau rheilffordd uniongyrchol. Byddai'r Aelodau'n cael y diweddaraf ar ddatblygiadau.

206. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2017/18

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2017/18 a gofynnodd i'r Cyngor nodi'r penderfyniadau wedi'u gwneud yn lleol am y gwasanaeth gofal cymdeithasol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd mai nawfed Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yw hwn ac mae'n seiliedig ar

hunanasesiad yr awdurdod o berfformiad a darpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wrth y Cyngor, o fis Hydref 2016, fod Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi newid y ffordd y mae'n archwilio gwasanaethau cymdeithasol i blant ac oedolion ac mae awdurdodau'n cael eu harchwilio trwy ddefnyddio canlyniadau llesiant y Ddeddf.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant grynodeb o berfformiad ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion lle y cafodd 5177 o oedolion eu cefnogi yn y gymuned; roedd nifer y bobl a dderbyniodd becyn Teleofal wedi cynyddu o 2921 yn y flwyddyn flaenorol i 3162 yn y flwyddyn gyfredol. Roedd y galw am wasanaethau ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi lleihau ychydig yn 2017/18 gyda 7604 o atgyfeiriadau'n cael eu derbyn o gymharu â 7623 o atgyfeiriadau a dderbyniodd yn 2016/17. Roedd nifer y bobl a gefnogwyd yng ngofal preswyl / nyrsio wedi lleihau o 1493 i 986. Roedd nifer y bobl wedi'u gwyro o wasanaethau prif lif i'w helpu i aros yn annibynnol cyhyd â phosibl wedi lleihau 167 yn y flwyddyn flaenorol i 116 yn y flwyddyn gyfredol, yn ogystal â 857 o bobl yn mynd i'r clinig galw heibio yn ARC.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant grynodeb o berfformiad ym maes Gofal Cymdeithasol i Blant, lle roedd 6677 o gysylltiadau newydd wedi'u derbyn yn ystod y flwyddyn. Roedd nifer y plant ar y gofrestr diogel plant wedi lleihau yn y flwyddyn flaenorol i 169 yn y flwyddyn gyfredol. Roedd nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi lleihau o 98 yn y flwyddyn flaenorol i 70 yn y flwyddyn gyfredol ac roedd nifer y gofalwyr yn derbyn cymorth gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid ar 31 Mawrth wedi lleihau o 131 i 116.

Amlygodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y prif gamau gweithredu ar gyfer 2018/19.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wrth y Cyngor fod yr awdurdod wedi comisiynu ffilm fer trwy bartneriaeth Bae'r Gorllewin o brofiadau staff a defnyddwyr gwasanaeth y gwnaeth yr Aelodau ei gwylio wedyn.

Holodd aelod o'r Cyngor beth oedd effaith negyddol y Cyngor yn arbed £12m ym maes gofal cymdeithasol. Sylwodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant nad yw ochr negyddol yr arbedion wedi'u gwneud wedi'u gweld eto gan fod y Gyfarwyddiaeth wedi moderneiddio a thrawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu trwy alluogi pobl i aros yn annibynnol. Dywedodd fod datblygu model gofal ychwanegol yn ffordd fwy cost-effeithiol o ddarparu gwasanaethau na gofal preswyl.

Gofynnodd aelod o'r Cyngor a fydd yr alldro ar gyfer y Gyfarwyddiaeth ar y trywydd iawn. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol wrth y Cyngor fod y cynllun ariannol yn cael ei fonitro'n agos a bod cynnydd da'n cael ei wneud. Adroddir y cynllun ariannol i'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Adran 151. Dywedodd y byddai cynnydd yn nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal a chydag anghenion cymhleth yn cael effaith niweidiol ar y gyllideb. Mae gwaith yn cael ei wneud gyda phartneriaid i gael cyllid rhanbarthol er mwyn cael cyllid grant i fuddio'r Fwrdeistref Sirol a'r bwriad oedd y byddai hyn yn parhau gydag ailalinio ffin y bwrdd iechyd. Rhagwelwyd y byddai Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn parhau ar y trywydd iawn.

Cyfeiriodd aelod at y pwysau sy'n wynebu staff gwaith cymdeithasol a gofynnodd am yr hyfforddiant sydd ar waith i gadw staff. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y

Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod y Cyngor wedi'i roi ar restr fer am wobr ofal cymdeithasol am y gwaith hwn o hyfforddi ei staff. Pwysleisiodd y pwysigrwydd o recriwtio a chadw staff a bod nifer y staff asiantaeth wedi lleihau. Dywedodd fod y Tîm fel cyfanwaith wedi ymateb yn dda i'r heriau mae'n ei wynebu.

Dywedodd aelod o'r Cyngor fod galw parhaol o hyd am y gwasanaethau a ddarperir gan y Gyfarwyddiaeth a bod llawer o wasanaethau'n anwadal o'u natur a gofynnodd sut y gellir cynnal gwasanaethau er mwyn bodloni gofynion y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ac mae angen cydnabyddiaeth drawsblaid o hyn. Dywedodd yr Arweinydd fod Cynghorau ledled Cymru'n wynebu gostyngiadau mewn Grantiau Cymorth Refeniw, oedd yn nghynaliadwy ac anogodd yr holl Aelodau i gysylltu ag ASau ynghylch y pwysau ar gyllidebau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Diolchodd i staff y rheng flaen am orfod gwneud penderfyniadau anodd bob dydd.

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ar ran y Cabinet i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Penaethiaid Gwasanaeth a'r holl staff yn y Gyfarwyddiaeth am y ffordd mae wedi ymateb i'r heriau ac wedi ailfodelu gwasanaethau.

Dywedodd aelod o'r Cyngor fod angen cydnabod na allai gwasanaethau barhau yn wyneb cyfyngiadau cyllideb ac y byddai angen gwneud dewisiadau anodd.

<u>PENDERFYNWYD</u> Bod y Cyngor yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2017/18.

207. <u>ADOLYGU BALANS GWLEIDYDDOL – NEWIDIADAU I AELODAETH Y PWYLLGOR</u>

Rhoddodd y Swyddog Monitro wybod i'r Cyngor am ganlyniad adolygiad o falans gwleidyddol yr Awdurdod sydd o ganlyniad i newid i aelodaeth y Grŵp Cynghrair Annibynnol. Ceisiodd hefyd enwebiad gan Grŵp Plaid Cymru i sefyll ar Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2 ac i Grŵp Annibynwyr Llynfi ildio sedd ar y Pwyllgor hwnnw, i adlewyrchu newid sydd ei angen ym malans gwleidyddol Pwyllgorau.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Cyngor, ar ôl adolygiad o falans gwleidyddol, fod aelodaeth pwyllgorau wedi'i diweddaru i adlewyrchu cyfansoddiad y Cyngor.

<u>PENDERFYNWYD</u> Bod y Cyngor yn:

(a) Nodi'r newid i gyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor;

(b) Cymeradwyo dyraniad y seddi i grwpiau gwleidyddol yn unol â rheolau balans gwleidyddol fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad;

(c) Penodi'r Cynghorydd T Thomas o Grŵp Plaid Cymru i sefyll ar Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2 i gymryd y sedd Annibynwyr Llynfi wedi'i ildio.

208. <u>DIWYGIAD I'R CYFANSODDIAD A'R CYNLLUN CYFLAWNI SWYDDOGAETHAU – RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACT DIWYGIEDIG</u>

Ceisiodd y Swyddog Monitro gymeradwyaeth i ddiwygio'r Cyfansoddiad i ymgorffori'r Rheolau Gweithdrefn Contract diwygiedig a diwygio'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau mewn perthynas â swyddogaethau'r Cyngor wedi'u neilltuo i bob Prif Swyddog.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod nifer o newidiadau wedi'u gwneud i Reolau gweithdrefn Contract cyfredol i sicrhau cydymffurfiaeth â darpariaethau Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 ac i foderneiddio'r ffordd mae'r Cyngor yn caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Dywedodd fod i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 19 Mehefin 2018 gymeradwyo'r Rheolau Gweithdrefn Contract diwygiedig i fod ar waith o 1 Aw^st^ 2018 ymlaen.

PENDERFYNWYD Bod y Cyngor yn:

- Nodi'r Rheolau Gweithdrefn Contract diwygiedig i fod ar waith o 1 Awst 2018;
- Cymeradwyo'r diwygiad o'r Cyfansoddiad i ymgorffori'r Rheolau Gweithdrefn Contract diwygiedig;

Cymeradwyo'r diwygiad i'r Cynllun Dirprwyaethau fel y nodir ym mharagraff 4.4 yr adroddiad.

209. BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS RANBARTH CAERDYDD – PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU AR Y CYD

Adroddodd y Prif Weithredwr ar gynnig i sefydlu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cyd ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd (CCRCD). Dywedodd fod y Cyd-gabinet y CCRCD yn ei gyfarfod ar 20 Tachwedd 2017 ystyried adroddiad oedd yn manylu ar gynigion i sefydlu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cyd. Penderfynwyd ar ôl hynny gan y Cyd-gabinet mai'r awdurdod hwn fyddai'r Awdurdod Cynnal.

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Cyngor am y cefndir a gwybodaeth am y cynnig ynghyd â'r Cylch Gorchwyl drafft. Dywedodd y byddai adroddiad yn cynnwys manylion am y cynnig yn cael ei ystyried gan bwyllgor craffu priodol pob awdurdod sy'n cymryd rhan cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor yn unol â Chanllawiau Statudol, wedi'u cyhoeddi dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Dywedodd wrth y Cyngor i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 18 Mehefin 2018 ystyried adroddiad y Cyd-gabinet Rhanbarthol, y Cylch Gorchwyl drafft ac enwebiad Aelod anweithredol i sefyll ar y PThCC.

PENDERFYNWYD Bod y Cyngor yn:

(a) Ystyried yr adroddiad a'r atodiadau a chymeradwyo sefydlu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cyd ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd;

(b) Cymeradwyo enwebu'r Cynghorydd J-P B Blundell i gynrychioli'r awdurdod ar Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cyd ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd;

Nodi mai penderfyniad pob un o'r deg awdurdod fydd a hoffent sefydlu'r PThCC wedi'i gynnig.

210. DERBYN Y CWESTIYNAU CANLYNOL GAN: Y CYNGHORYDD ALTAF HUSSAIN I'R AELOD CABINET DROS GYMUNEDAU

**Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Gymunedau gan y Cynghorydd A Hussain**

"Cynyddu'r Dreth Gyngor, gwaredu cymorthdaliadau hanner llwybrau bysus a gefnogir gan y Cyngor, toriad o 60% i gyllideb toiledau cyhoeddus a defnydd callach o adnoddau - all yr Aelod Cabinet roi gwybod i'r Cyngor beth rydym yn ei gynnig i drigolion Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn gyfnewid am hyn.

**Ymateb**

"Mae'r Awdurdod yn dal i wario mwy na £250m net i ddarparu nifer sylweddol o wasanaethau cyhoeddus gwahanol; ac er gwaethaf y mesurau llymder parhaol ac arbedion cyllideb sylweddol mae awdurdodau lleol megis CBSP wedi gorfod cystadlu â nhw am sydd bellach yn swm sylweddol o flynyddoedd, rydym yn parhau'n bennaf i ddarparu gwasanaethau gwerthfawr a da ar gyfer y cyhoedd, ac wedi parhau i wneud hyn yn y rhan fwyaf o achosion, hyd yn oed os yw hyn trwy ddod o hyd i ffyrdd eraill o ddarparu gwasanaethau o'r fath (er gwaethaf cael llai o adnoddau i wneud felly.) Am fwy o fanylion am broses ddyrannu cyllideb y Cyngor a'r gwasanaethau mae wedi'i ymrwymo iddynt, yn ogystal â'r meysydd mae toriadau wedi'u gwneud ynddynt er mwyn cyflawni'r arbedion sydd eu hangen dan y SATC, gall yr Aelod gyfeirio at yr adroddiad o'r enw 'Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2018-19 i 2021-22 a'r Dreth Gyngor 2018-19, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod dyddiedig 28 Chwefror 2018.

Gofynnodd y Cynghorydd Hussain gwestiwn ategol gan ddweud ei fod yn credu bod yr Aelod Cabinet wedi methu â gofyn y cwestiwn, fel ym misoedd y gaeaf, mae trigolion yn cwyno am grudio ffyrdd. Ym misoedd yr haf, mae trigolion yn cwyno am laswellt yn cael ei dorri ac thrwy'r flwyddyn mae trigolion yn cwyno am geubyllau. Gofynnodd i'r Aelod Cabinet beth yw'r blaenoriaethau a sut eir i'r afael â'r materion.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ar ran yr Aelod Cabinet dros Gymunedau fod yn rhaid i'r Cyngor gwneud defnydd callach o'i adnoddau a gweithio mor effeithlon â phosibl. Dywedodd fod gan y Cyngor un o'r strwythurau rheoli mwyaf main o'r awdurdodau lleol yng Nghymru gan fod ganddo 3 Chyfarwyddwr Corfforaethol. Dywedodd wrth y Cyngor mai 75% o gyllideb yr awdurdod yw costau staff a'i bod yn debygol y byddai'n rhaid i'r Cyngor ddod o hyd i £7m ychwanegol i fodloni pwysau demograffig a gwobr tâl athrawon a staff. Dywedodd y byddai'n rhaid i'r Cabinet wneud penderfyniadau anodd mewn perthynas â gwario ar wasanaethau, boed hynny i gau sawl gwasanaeth neu leihau gwariant mewn sawl ardal. Anogodd yr Aelodau i geisio cymorth ASau gyda cheisio diwedd mesurau llymder.

211. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:37